**Rhif:** WG29800

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cefnogi Dysgwyr â Gofal Iechyd

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2016

© Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978 1 4734 7499 4

# Cefnogi Dysgwyr â Gofal Iechyd

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at bawb sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth addysg ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. |
| **Trosolwg** | Mae hwn yn grynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y ddogfen ymgynghori drafft ar *Gefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd*. |
| **Camau I'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost:<br>additionallearningneedsbranch@wales.gsi.gov.uk |
| Copïau ychwanegol | Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| Dogfennau cysylltiedig | ymgynghori ar Gefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd (2016) |

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** **2**
**2. Methodoleg** **3**
Ymatebion i'r ymgynghoriad fesul sector 3
**3. Themâu allweddol** **4**
Grymuso dysgwyr a'u teuluoedd 4
Diogelu data / storio data / rhannu gwybodaeth 4
Hyfforddiant 4
UCD 4
Fframwaith gyfreithiol, gwirfoddoli a hawliau plant 4
Materion eraill 5
**4. Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad** **6**
Cwestiwn 1 – Cynnwys y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig 6
Cwestiwn 2 – Fformat/diwyg y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig 7
Cwestiwn 3 – Strwythur y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig 7
Cwestiwn 4 – Dogfen Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru (2014) 8
Cwestiwn 5 – Ffurflenni ychwanegol ar gyfer Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd 8
Cwestiwn 6 – Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol 9
Cwestiwn 7 – Sylwadau ychwanegol 9
**Camau nesaf** **11**
**Atodiad A: Rhestr lawn o ymatebwyr** **12**
**Atodiad B: Ymatebion ymgynghoriad (nid yn y ddogfen)**

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo mynediad cyfartal at addysg i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.  Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall rhai plant a phobl ifanc wynebu rhwystrau ychwanegol i sicrhau'r mynediad cyfartal hwn.  Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion, byrddau iechyd lleol, rhieni, dysgwyr a sefydliadau eraill â diddordeb i leihau'r rhwystrau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen ganllawiau 'Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol' yn 2010.

Crëwyd dogfen 2010 yn bennaf er mwyn darparu cymorth i ysgolion ac awdurdodau lleol ar ddiwallu anghenion addysgol plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol. Roedd yn pwysleisio'r angen am ddilyniant mewn addysg a'r effaith y gall cyflyrau meddygol eu cael ar addysg, iechyd a lles plentyn neu berson ifanc.

Anelodd y ddogfen ddrafft Canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd 2016 a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Chwefror 2016, at adeiladu ar ganllawiau 2010 a chyfeirio at ganllawiau ynghylch Cadw Anadlwyr Salbutamol ar safle ysgolion. Mae hefyd yn adlewyrchu'r arfer diweddaraf gorau, barn rhanddeiliaid allweddol a newidiadau yn y tirlun deddfwriaethol megis Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Er mwyn ein cynorthwyo i ddiwygio canllawiau 2010, casglwyd barn rhanddeiliaid allweddol drwy ymarfer adolygu cyflym gyda 31 o ysgolion, cynrychiolwyr o golegau Addysg Bellach, pedwar Bwrdd Iechyd, tri Awdurdod Lleol, undebau'r athrawon a chyrff y trydydd sector yn cymryd rhan.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 29 Ebrill, 2016 gyda chyfanswm o 44 o ymatebion wedi'u derbyn. Mae rhestr yr ymatebwyr yn 'Atodiad - Rhestr lawn o ymatebwyr', gydag anhysbysrwydd wedi'i ddiogelu lle gofynnwyd am hynny.


## 2. Methodoleg

### Ymatebion i'r ymgynghoriad fesul sector

Darparwyd holiadur oedd yn canolbwyntio ar chwe thema sy'n ymwneud â'r canllawiau drafft newydd. Gwahoddiad agored oedd y cwestiwn olaf i godi materion ychwanegol, cysylltiedig.

Derbyniodd Lywodraeth Cymru gyfanswm o 44 ymateb i'r ymgynghoriad. Cafodd yr ymatebwyr eu grwpio i'r saith categori a restrir isod:

| Sector | Nifer |
|---|---|
| Sefydliadau trydydd sector | 20 |
| Gweithwyr Iechyd Proffesiynol | 8 |
| Unigolion | 5 |
| Undebau'r Athrawon | 4 |
| Sefydliadau sector cyhoeddus eraill | 3 |
| Llywodraeth Leol | 2 |
| Arall | 2 |
| Cyfanswm ymatebion | **44** |




Oherwydd nifer fechan yr ymatebwyr yn rhai o'r grwpiau hyn, nid yw'r dadansoddiad meintiol yn cael ei ddadansoddi ar gyfer pob grŵp ymatebydd, fodd bynnag pan ddaw thema i'r amlwg drwy'r sylwadau a dderbyniwyd gan grŵp penodol, caiff hyn ei gynnwys yn sylwadau. Defnyddir dyfyniadau i gyflwyno enghreifftiau o'r sylwadau a fynegwyd gan grŵp neu i gynrychioli barn a rennir yn gyffredin.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddychwelwyd wedi defnyddio profforma Llywodraeth Cymru, cafodd wyth eu cyflwyno mewn fformat arall, gan gynnwys papur pennawd corfforaethol, gohebiaeth breifat , a chyflwyniadau testun rhydd.

Ar draws yr holl gwestiynau, roedd canran uchel o 'Dim ymateb'. Roedd hyn yn rhannol oherwydd nad oedd ymatebwyr yn cwblhau'r ymgynghoriad profforma, tra nad oedd eraill wedi nodi ymateb ar y ffurflen a ddarparwyd.

Roedd 12 o'r 20 ymateb a gafwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector yn dangos atebion tebyg dros ben i gwestiynau penodol, er eu bod wedi'u hategu gan rai sylwadau oedd yn benodol i'r sefydliad. Yn gyffredinol, yr ymatebion hyn oedd fwyaf beirniadol o'r canllawiau drafft, gan awgrymu eu bod yn brin o eglurder ac yn mynegi barn y dylai'r fframwaith gyfreithiol yng Nghymru gael ei datblygu er mwyn iddi gael ei chysoni â deddfwriaeth ddiweddar yn Lloegr.

## 3. Themâu allweddol

Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnwys themâu a oedd, oherwydd eu natur, yn drawsbynciol. Mae'r adran hon yn ceisio grŵpio'r themâu hyn a nodi'r materion allweddol.

### Grymuso dysgwyr a'u teuluoedd

Croesawodd lawer o ymatebwyr ddull y canllawiau drafft newydd, gan gredu y bydd yn helpu grymuso dysgwyr a'u teuluoedd ynghylch rheoli, cyflawni, a monitro eu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol. Croesawodd ymatebwyr flaenoriaethu cynnwys dysgwyr yn natblygiad eu CIU, gan gydnabod ei fod yn cynnig y cyfle iddynt gael eu clywed. Teimlwyd hefyd y gallai'r pwyslais hwn ar hunan-reoli fod yn gam pwysig wrth i ddysgwr ddatblygu i ddod yn berson ifanc aeddfed a chyfrifol.
Roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch yr oedran y dylai dysgwyr fod wrth gymryd cyfrifoldeb am eu cefnogaeth eu hunain; fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr nad oedran oedd y mater diffiniol, gan deimlo mai aeddfedrwydd a dealltwriaeth yw'r ffactorau cryfach. Teimlodd un ymatebydd y dylai cymwyseddau Fraser a Gillick gael eu profi a'u cymhwyso wrth asesu a yw dysgwr yn gallu hunan-reoli ei ofal/ei gofal.

### Diogelu data / storio data / rhannu gwybodaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi gwneud nifer o awgrymiadau manwl ar sut y gall y cyfarwyddyd gael ei gryfhau o ran cynorthwyo ysgolion i gydymffurfio ag arfer gorau a'u dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA).

### Hyfforddiant

Roedd nifer o sylwadau ynghylch yr angen canfyddedig i gryfhau'r canllawiau mewn perthynas â hyfforddiant. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu data, rhannu gwybodaeth, niferoedd y staff wedi'u hyfforddi sydd ar gael, hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol, a hyfforddiant o ran anghenion gofal iechyd penodol a gweithdrefnau argyfwng.

### UCD

Mae gan unedau cyfeirio disgyblion strwythurau rheoli gwahanol i sefydliadau dysgu eraill gan nad oes gan eu pwyllgorau rheoli yr un swyddogaethau statudol â chyrff llywodraethu ysgolion eraill yn enwedig o ran materion cyllid, staffio ac ystadau fel y nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd o dan Reoliadau Addysg (Uned Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau rheoli ac ati) (Cymru) 2014. Roedd sawl ymatebydd o'r farn bod angen i'r canllawiau drafft gael eu cryfhau fel eu bod yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn yn fwy eglur.

### Fframwaith gyfreithiol, gwirfoddoli a hawliau plant

Roedd 16 neu 34% o'r ymatebwyr o'r farn fod yna angen dyletswydd statudol yng Nghymru, yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion wneud trefniadau i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr hyn mai

deddfwriaeth Lloegr, Deddf Plant a Theuluoedd, Adran 100, oedd y ddeddfwriaeth yr hoffent i Gymru ei hefelychu.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y diffyg dyletswydd statudol penodol yng Nghymru (o'i gymharu â model Lloegr), yn broblem, gan ystyried ei fod wedi cael effaith niweidiol ar allu rhieni i sicrhau bod eu plentyn yn cael cymorth gyda'u hanghenion gofal iechyd yn eu hysgol leol. Oherwydd eu persbectif, roedd yr ymatebwyr hyn yn nodweddi'r system bresennol yn un wirfoddol, gan eu bod yn credu nad oes rhaid i ysgolion ddarparu cymorth priodol i ddysgwyr, gan arwain at y posibilrwydd na fydd dysgwyr yn derbyn addysg gyfiawn a theg yn eu dewis ysgol leol. Fodd bynnag, roedd undebau'r athrawon am i agwedd wirfoddol gweinyddu neu oruchwylio meddyginiaeth barhau.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) o fewn cyfraith Cymru. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi gwneud nifer o awgrymiadau manwl ynglŷn â sut y gall rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru gael eu hadlewyrchu'n well o fewn y canllawiau. Mae'r Comisiynydd yn nodi y gallai mwy o ystyriaeth fod wedi cael ei roi i'r tri maes isod:
"Rôl addysg mewn hyrwyddo anghenion cyfannol y plentyn cyfan - gan roi cydraddoldeb statws cyfartal i gefnogi iechyd meddwl ac anghenion lles emosiynol plant a phobl ifanc;

Gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i sicrhau buddiannau gorau plant a phobl ifanc unigol;
Cryfhau canllawiau sydd wedi'u cynllunio i wella mynediad i ysgolion ac addysg ar gyfer plant a phobl ifanc anabl."
Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai colegau AB gael yr un warchodaeth statudol â'r hyn sydd mewn ysgolion a gynhelir.

## Materion eraill

**'Cysylltiadau Defnyddiol' ychwanegol**
Awgrymodd ymatebwyr wyth o sefydliadau ychwanegol ar gyfer atodiad 'Cysylltiadau Defnyddiol' y canllawiau.

**Fersiynau ar gyfer rhieni a dysgwyr**
Yr oedd nifer o ymatebwyr o'r farn nad oedd y ddogfen wedi cael ei hysgrifennu mewn ffordd a oedd yn addas i deuluoedd / dysgwyr. Hefyd, roedd ceisiadau am gynhyrchu fersiynau ychwanegol o'r canllawiau i gynorthwyo teuluoedd a dysgwyr i ddeall y broses o gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd.

**Rheoli bwyd**
Roedd 14 o ymatebwyr hefyd yn awyddus bod y ddogfen gyfarwyddyd yn adlewyrchu anghenion gofynion deietegol plant a pobl ifanc. Yn enwedig, gofynion plant a phobl ifanc sydd â diabetes a dylai fod gweithdrefnau a phrotocolau llym ar waith lle mae gofynion deietegol meddygol yn angenrheidiol.

# 4. Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1 – Cynnwys y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig

Ydych chi'n cytuno bod drafft diwygiedig y ddogfen ganllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn glir ac yn hawdd i'w ddeall?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno | Dim ymateb |
|---|---|---|---|
| 32% | 39% | 9% | 20% |

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys llawer o faterion perthnasol na chyfeiriwyd atynt yn uniongyrchol gan y cwestiwn ei hun. Mae'r materion hyn wedi cael sylw mwy manwl yn adran Themâu Allweddol y ddogfen hon.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y ddogfen yn fyr, gan ganmol y ffaith ei bod hi'n 'gryno'; fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn dal i deimlo bod y ddogfen yn rhy hir.

Roedd rhai ymatebwyr cefnogol hefyd o'r farn bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn sicrhau ei bod yn hygyrch i arweinwyr ysgolion, cyrff llywodraethol a rhanddeiliaid perthnasol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod tôn y ddogfen ar y cyfan yn amwys â diffyg eglurder.

Roedd un o'r ymatebwyr yn canmol y ddogfen am wneud yr egwyddorion y tu ôl i'r arweiniad yn glir ac am ddarparu disgwyliadau cyffredin o ran cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Un o amcanion y canllawiau oedd creu eglurder sy'n annog cyfranogiad dysgwyr / teulu. Cafwyd sylw i hyn gan nifer o ymatebwyr a oedd yn teimlo bod y canllawiau yn cefnogi ac yn annog dysgwyr mewn ffordd gadarnhaol a oedd yn grymuso, gan ei fod yn annog dysgwyr, lle bo modd, i gael eu grymuso ynghylch eu gofal eu hunain, gyda'r nod o'u galluogi i fod yn annibynnol, yn enwedig mewn perthynas â hunan-feddyginiaeth. Dywedodd un ymatebydd: 'Drwy gydol y ddogfen, mae 'cynwysoldeb' yn thema allweddol ac yn gadarnhaol wrth sicrhau fod pob lleoliad yn weithredol galluogi'r dysgwr gyda anghenion gofal iechyd i gymryd rhan lawn'. Nid oedd pawb o'r farn hon gyda thri o ymatebwyr o'r farn ei bod hi'n ymddangos bod y ddogfen ganllawiau yn canolbwyntio fwy ar ddiogelu ysgolion ac AALlau yn hytrach na diogelu a hyrwyddo iechyd plant a hawliau addysgol.

## Cwestiwn 2 – Fformat/diwyg y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig

Ydych chi'n cytuno bod drafft diwygiedig y ddogfen ganllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn glir yn y modd y mae'n cyflwyno'r dyletswyddau a chyngor cyfreithiol i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol? Mae hyn yn cynnwys cyflwyniad y cynnwys a fyddai'n cael ei gyhoeddi'n ganllawiau statudol (mewn ffont trwm); gwybodaeth sy'n grynodeb o ddyletswyddau cyfreithiol; a chyngor cyffredinol .

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno | Dim ymateb |
|---|---|---|---|
| 34% | 36% | 5% | 23% |

Mae rhai sylwadau a wnaed yma yn disgyn tu allan i gwmpas y cwestiwn a chânt eu harchwilio yn adran Themâu Allweddol y ddogfen hon.

**Eglurder y dyletswyddau a chyngor cyfreithiol i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol**
Roedd rhai ymatebwyr yn gefnogol iawn o'r adran hon yn y ddogfen, gan ddatgan fod y drafft diwygiedig yn glir iawn wrth gyflwyno dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas ag ysgolion, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol. Teimlai lawer o ymatebwyr hefyd bod cyflwyno'r dyletswyddau statudol mewn print trwm yn arwain at ddogfen resymegol a strwythuredig a oedd yn hawdd ei darllen. Fodd bynnag , roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod rhoi'r dyletswyddau cyfreithiol mewn print trwm yn ei gwneud hi 'ychydig yn fwy anodd i'w ddarllen' tra roedd ymatebwyr eraill yn teimlo fod yna anghysondebau yn y defnydd o brint trwm/cyffredin mewn perthynas â dyletswyddau.

**Cyfrifoldebau Cyrff llywodraethu ac Awdurdodau Lleol**
Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o eglurder ynglŷn â chwmpas cyfrifoldebau cyfreithiol cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio'n llawn â'u gofynion cyfreithiol. Fodd bynnag, teimlai dau ymatebydd y gallai eglurder cyfreithiol llawn arwain at y canlyniad anfwriadol o leoliadau addysgol yn canolbwyntio'n ormodol ar eu dyletswyddau statudol yn hytrach na'r cyngor ehangach o fewn y ddogfen.

## Cwestiwn 3 – Strwythur y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig

Ydych chi'n cytuno bod drafft diwygiedig y ddogfen ganllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd wedi'i strwythuro'n glir? Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth rydych ei hangen neu eisiau ei gwybod yn hawdd drwy ddefnyddio'r ddogfen ganllawiau ddiwygiedig?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno | Dim ymateb |
|---|---|---|---|
| 36% | 30% | 11% | 23% |

Mae rhai sylwadau a wnaed yma yn disgyn tu allan i gwmpas y cwestiwn a chânt eu harchwilio yn adran Themâu Allweddol y ddogfen hon.

**Eglurder strwythur y ddogfen**
Teimlai'r ymatebwyr bod penawdau adrannau clir y ddogfen yn galluogi ei llywio yn hawdd ac mewn modd amserol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod trefn y ddogfen yn galluogi'r wybodaeth i 'lifo mewn ffordd synhwyrol.' Fodd bynnag, teimlai nifer o ymatebwyr nad oedd strwythur y canllawiau drafft yn hawdd i'w ddeall na'i lywio, gan ffafrio strwythur y ddogfen ganllawiau anghenion meddygol o Loegr.

## Cwestiwn 4 – Dogfen Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru (2014)

Ydych chi'n cytuno bod yr Arweiniad ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru yn rhoi cyngor digonol i ysgolion a/neu awdurdodau lleol ar y newidiadau i reoliadau'r DU sy'n caniatáu i ysgolion gadw anadlwyr salbutamol brys?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Dim ymateb |
|---|---|---|---|
| 30% | 5% | 30% | 36% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a fynegodd farn yn gefnogol o'r canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol mewn ysgolion. Cafodd ei ganmol am ei natur ymarferol gyda'r adran 'arwyddion cynnar o bwl o asthma' yn cael ei amlygu'n bwysig gan ei bod, ym marn yr ymatebydd, yn cynnig cyngor ymarferol ac yn arbennig o ddefnyddiol i staff nad ydynt yn staff meddygol. Nododd ymatebwyr rai pryderon ynghylch dyletswyddau cyfreithiol a chefnogi dysgwyr mewn sefyllfaoedd brys ac argaeledd staff hyfforddedig.

## Cwestiwn 5 – Ffurflenni ychwanegol ar gyfer Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd

Ydych chi'n cytuno fod y ddogfennaeth ategol, ar wahân (Atodiad 3) a ddarparwyd gyda'r ddogfen Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn ddigonol ar gyfer eich anghenion? Os ydych yn anghytuno, defnyddiwch y blwch isod i awgrymu unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau posibl i'r deunyddiau hyn.

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno | Dim ymateb |
|---|---|---|---|
| 20% | 16% | 36% | 27% |

Er bod y ffurflenni ategol ychwanegol wedi arwain at lawer o sylwadau ac arsylwadau defnyddiol, ni wnaethant gynhyrchu llawer o safbwyntiau cyffredinol cadarn, gyda dim ond 36% o ymatebwyr yn cytuno neu anghytuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys llawer o ychwanegiadau i'r hyn y dylid ei gynnwys ar y ffurflenni amrywiol, ynghyd â rhai cywiriadau o ran eu cyflwyno. Yn ychwanegol at y pwyntiau llai hyn, roedd dau fater lle teimlai ymatebwyr fod angen newidiadau mwy cynhwysfawr.

**Templed Cynllun Gofal Iechyd Unigol hyblyg, safonedig**
Awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai o fudd pe bai Lywodraeth Cymru yn cynhyrchu ffurflen templed (ond hyblyg) 'Cynllun Gofal Iechyd Unigol' (CIU). Byddai'n cynorthwyo disgyblion, rhieni, Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu i weithredu fformat cyffredin, sylfaenol ymhob rhan o Gymru gan ganiatáu dull cyson. Byddai cynllun enghreifftiol yn helpu i liniaru cyfnodau risg penodol, megis newid ysgolion a chyfnodau pontio.

**Ffocws cul ar roi meddyginiaeth**
Mynegwyd canfyddiad gan nifer o ymatebwyr fod y ddogfen ddrafft a'r ffurflenni a ddarperir yn Atodiad 3, yn canolbwyntio'n ormodol ar roi meddyginiaeth ac nad oeddent yn adlewyrchu anghenion gofal iechyd ehangach fel symud, trafod a chynlluniau symudedd.

## Cwestiwn 6 – Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol

Ydi'r atodiad fframwaith gyfreithiol (Atodiad 1) yn ddefnyddiol wrth amlygu'r prif ddarpariaethau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â diogelu lles plant ag anghenion gofal iechyd?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno | Dim ymateb |
|---|---|---|---|
| 27% | 11% | 32% | 30% |

Ychydig o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn; fodd bynnag , roedd rhai o'r ymatebion i gwestiwn 1 a 2 yn uniongyrchol berthnasol i gynnwys Atodiad 1. Am y rheswm hwnnw , maent wedi cael sylw yma.

**Strwythur ac eglurder Atodiad 1**
Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn fod Atodiad 1 yn cyflwyno'r ffeithiau mewn modd clir a diamwys. Fodd bynnag, teimlai nifer o'r ymatebwyr y gallai'r iaith yn yr atodiad fod yn fwy eglur, gyda mwy o ddefnydd o Saesneg clir. Nid oedd dau o'r ymatebwyr yn cefnogi rhoi'r wybodaeth hon mewn atodiad; roeddent o'r farn bod y wybodaeth gyfreithiol yn bwysig iawn, ac y dylai felly fod yn y brif ddogfen.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
Teimlai nifer o ymatebwyr fod cysylltu'r canllawiau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ddefnyddiol iawn, ond bod angen datblygu'r adran hon i gynnwys gwybodaeth gliriach ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r adran 'beth yw addasiadau rhesymol?'.

## Cwestiwn 7 – Sylwadau ychwanegol

Os oes gennych unrhyw faterion neu sylwadau cysylltiedig yn ychwanegol i'r pwyntiau uchod, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd nhw.

| Nifer yr ymatebwyr wnaeth ddefnyddio profforma ymateb yr ymgynghoriad | Nifer wnaeth ymateb i gwestiwn 7 |
|---|---|
| 36 | 18 |

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ymatebwyr fyfyrio ar y ddogfen yn ei chyfanrwydd a chyflwyno awgrymiadau neu sylwadau nad oeddynt wedi'u mynegi'n flaenorol. Mae rhai o'r ymatebion hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn adran Themâu Allweddol y ddogfen hon.
Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod cynnwys siart lif CIU sampl yn ddefnyddiol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r canllawiau hefyd ddarparu 'polisïau templed' achos fod gan rai sefydliadau dysgu adnoddau neu allu cyfyngedig i gynhyrchu llawer o bolisïau 'o'r dechrau'.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r canllawiau wneud cyfeiriad cryfach at ddefnyddio arbenigedd y sector wirfoddol. Teimlai rhai y dylai'r canllawiau gyfeirio ysgolion ac awdurdodau lleol i sefydliadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc â chyflyrau iechyd penodol, gan nodi bod llawer o'r sefydliadau hyn yn cynnig cyngor ac arweiniad i ysgolion a'u bod nhw wedi datblygu templedi defnyddiol sydd wedi eu teilwra i'r cyflyrau penodol dan sylw. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn berthnasol a/neu yn ddefnyddiol mewn achosion lle mae plentyn neu berson ifanc yn wynebu cyflwr sy'n amrywio neu'n ysbeidiol, megis meigryn. Gofynnodd rhai ymatebwyr i amodau o'r fath gael eu cynnwys yn benodol yn y canllawiau a bod unrhyw ofynion statudol yn berthnasol bob amser ac nid dim ond pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dioddef afiechyd. Awgrymir efallai y bydd plant a phobl ifanc â chyflyrau sy'n arwain at absenoldebau tymor mynych a byr, angen cymorth dysgu, emosiynol ac integreiddio.
Nodwyd nad oes cyfeiriad wedi ei wneud at pan fydd plentyn neu berson ifanc â gastrostomi endosgopig trwy'r croen (PEG) angen ei fwydo/bwydo neu angen derbyn meddyginiaeth yn ystod y diwrnod ysgol.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn fod angen cael 'gweithlu sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd â'r offer iawn', gan nodi bod materion ar hyn o bryd yn ymwneud ag ymwybyddiaeth isel, camddealltwriaeth a diffyg hyder ynghylch staff ysgol yn rheoli anghenion gofal iechyd y dysgwyr.

## Camau nesaf

Bydd yr ymatebion a dderbyniwyd yn cael eu hystyried yn ofalus i lywio datblygiad y canllawiau drafft.

# Atodiad A: Rhestr lawn o ymatebwyr

| Sefydliad/Enw unigolyn |
| --- |
| Carl Hussey |
| Ruth Ferrier |
| Migraine Action |
| Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw |
| SNAP Cymru |
| Gwasanaeth Nyrsio Iechyd Ysgolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Geraint Preest |
| All Wales HV/SHN Forum |
| The Migraine Trust |
| Estyn |
| CLIC Sargent |
| Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar |
| Matt Tribbeck |
| NAHT Cymru |
| Llywodraethwyr Cymru |
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| Children and Young People's Wales Diabetes Network |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Emma Williams |
| Diabetes UK Cymru |
| Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| Coeliac UK |
| Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd |
| Liz Atter |
| Vanessa Gwenin, Prifysgol Bangor |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| Anaphylaxis Campaign |
| Diabetes UK |
| ATL Cymru |
| Rebecca Davies Jones |
| Epilepsy Action |
| All Wales Paediatric Occupational Therapy Network |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Cystic Fibrosis Trust |
| ASCL Cymru |
| AFASIC |
| Comisiynydd Plant Cymru |
| Crohn's and Colitis UK |
| Sense Cymru |
| Adele Rose Morgan |
| Young Epilepsy |
| Cymdeithas Cefnogi ME & CFS Cymru |
| Coleg Nyrsio Brenhinol |
| UNSAIN |